


# Sut i wneud i'ch enwebiadau sefyll allan

**Caiff Gwobrau Ysbrydoli! eu trefnu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.**

Croesawn enwebiadau ar gyfer pobl a phrosiectau cymunedol sydd wedi profi grym trawsnewidiol dysgu. Mae'r canllawiau yma yn cynnig camau ymarferol ar sut i:

• Fynd ati i gyflwyno enwebiad.
• Llunio enwebiad sy'n sefyll allan ac yn dangos stori y sawl a enwebwch.

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Ble i ddechrau: Cael mynediad i'r dogfennau rydych eu hangen i wneud enwebiad.

**Canllawiau ar Gymhwyster a Meini Prawf:**
Cyn dechrau arni, argymhellwn eich bod yn adolygu ein Canllawiau Cymhwyster a Meini Prawf. Mae hyn yn sicrhau fod y sawl a enwebwch yn cyflawni'r gofynion ar gyfer eu categori ac yn eich helpu i deilwra eich atebion i'r hyn y mae'r beirniaid yn edrych amdano. Gofynnir i chi sicrhau fod y sawl a enwebwch yn gwybod eich bod yn eu henwebu; bydd angen iddynt lofnodi datganiad ffurfiol i gadarnhau eu bod yn hapus gyda hyn.
**Lawrlwytho'r ddogfen canllawiau.**

**Dewiswch eich dull i gyflwyno eich enwebiad:**
I gyflwyno eich enwebiad, gallwch naill ai ddefnyddio ein **Dolen Enwebu Ar-lein** or neu lenwi'r **ffurflen electronig ar Word** a'i dychwelyd drwy e-bost: inspire@learningandwork.org.uk.

**Dewisol:** Mae croeso i chi gyflwyno eich datganiadau drwy fideo neu ffilm fer. Mae hyn yn ffordd wych i gyfleu stori y sawl a enwebwch mewn ffurf weledol. Os dewiswch hyn, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn dal i roi'r holl fanylion cyswllt angenrheidiol ar eich cyfer chi a hefyd y sawl a enwebwch fel y gallwn gysylltu gyda chi.

**Dyddiad cau enwebiadau: dydd Gwener 8 Mai 2026.**




# Lluniwch enwebiad sy'n sefyll allan ac sy'n cyfleu stori y sawl a enwebwch.

P'un ai ydych yn tynnu sylw at lwyddiant dysgwr neu brosiect, defnyddiwch yr awgrymiadau yma i sicrhau fod eich enwebiad yn dweud stori rymus.

- **Llenwi'r ddau ddatganiad:** Llenwch y ddau ddatganiad I roi'r cyfle gorau posibl i'ch enwebiad. Datganiad yr Enwebwr yw'ch cyfle i roi sylw i'r sawl a enwebwch ac mae'r Datganiad Enwebai y galluogi'r dysgwr neu dîm y prosiect i rannu'r daith yn eu geiriau eu hunain.

- **Rhannu enghreifftiau go iawn:** Rydym eisiau gweld "grym trawsnewidiol" dysgu ar waith. Yn hytrach na dim ond dweud fod dysgwr yn ymroddedig neu y bu prosiect yn llwyddiannus, dangoswch i ni sut y gwnaethant gyrraedd yno. Rhowch y cerrig milltir allweddol data penodol neu fesurau sy'n dangos yr ymdrech gysylltiedig a'r llwyddiannau go iawn.

- **Rhoi darlun llawn:** I helpu'r beirniaid i ddeall y daith, esboniwch gefndir y dysgwr neu brosiect, y sgiliau penodol a ddysgwyd, y rhwystrau a gafodd eu goresgyn a'r effaith ehangach ar fywydau neu'r gymuned. Os ydych yn enwebu dysgwr, dywedwch wrthym am eu cymeriad a'r cryfderau personol sydd wedi eu helpu i lwyddo ac ysbrydoli y rhai o'u cwmpas.




- **Gwnewch i bob gair gyfrif:** Defnyddiwch y gofod a roddir i roi manylion clir a chryno am y daith. Strwythurwch eich ymateb gyda phwyntiau bwled neu baragraffau byr i'w gwneud yn hawdd gweld y llwyddiannau allweddol. P'un ai yn disgrifio twf unigolyn neu lwyddiant prosiect, dyma'ch cyfle i ddangos i'r beirniaid yn union pam fod y sawl a enwebwch yn sefyll allan a pham eu bod yn haeddu ennill gwobr.

- **Awgrymiadau ychwanegol ar gyfer enwebu prosiect:** Os ydych yn enwebu prosiect, dywedwch wrthym sut y dechreuodd, pwy wnaeth eu cyrraedd a'r deilliannau ystyrlon a sicrhawyd. Rydym hefyd yn croesawu geirda gan ddysgwyr er mwyn cael gwybodaeth o lygad y ffynnon am lwyddiant prosiect.

- **Gwybodaeth i gefnogi:** Mae croeso i chi **anfon** ychwanegiadau byr, perthnasol atom i helpu dod â'u stori yn fyw - gallai hyn fod yn ddolen i wefan, lluniau, erthygl newyddion neu lythyr cefnogi caredig.




- **Ysgrifennu Datganiad yr Enwebai:** P'un ai ydych yn ddysgwr unigol neu'n rhan o dîm prosiect, defnyddiwch y gofod yma i ddweud eich stori yn eich geiriau eich hun. Canolbwyntiwch ar effaith bersonol y daith: dywedwch wrthym am y sgiliau newydd yr ydych wedi eu hennill, yr hyder yr ydych wedi'i feithrin, beth mae'r llwyddiant yma yn ei olygu a beth sydd nesaf ar eich taith ddysgu.

- **Golwg terfynol:** Cyn i chi bwyso'r botwm anfon, rhowch funud i wirio eto fod yr wybodaeth yn gywir ac yn dilyn y canllawiau swyddogol. Mae hyn yn sicrhau fod y sawl a enwebwch yn cael y dechrau gorau posibl ym mhroses y gwobrau.




## Cysylltwch â ni

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'ch enwebiad neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am Wobrau Ysbrydoli!, cysylltwch â'r tîm yn: inspire@learningandwork.org.uk

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Llywodraeth Cymru
Welsh Government